

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	18 Tachwedd 2015
<b>TEITL</b>	Prosiectau Diweddar Uned AHNE Llŷn
<b>PWRPAS</b>	Hysbysu Aelodau
<b>AWDUR</b>	Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr Wybodaeth

## **1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor am brosiectau diweddar Uned AHNE Llŷn. Mae'r thema yn amrywio o waith codi ymwybyddiaeth am yr AHNE, dehongli, cynnal digwyddiadau, gwella'r tirlun a gweinyddu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

## **2.0 GŴYL ARFORDIR LLŷN**

2.1 Bu Gŵyl Arfordir 2015 yn llwyddiant ysgubol gyda niferoedd mawr o drigolion ac ymwelwyr yn cymryd rhan mewn cyfres o ddigwyddiadau a gyd-drefnwyd gan yr Uned AHNE, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Natur Gwynedd, Ecoamgueddfa, Amgueddfa Forwrol Llŷn a Phlas Heli.

2.2 Cynhaliodd yr Uned AHNE dair taith gerdded yn ardaloedd Cilan, Garn Fadryn a Chlynnog Fawr. Ymunodd llawer o bobl – a chafwyd adborth cadarnhaol iawn.

2.3 Mae'n fwriad gan y Partneriaid gwrdd yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn dechrau paratoi ar gyfer Gŵyl 2016. Fel rheol, mae'r Uned AHNE yn gyfrifol am gydlynu cynhyrchu taflen ddigwyddiadau sy'n crynhoi'r holl ddigwyddiadau. Rydym yn anelu i'w chyhoeddi erbyn y Pasg.

## **3.0 LLYGAD LLŷN**

3.1 Bydd y gwaith o gasglu eitemau a chreu erthyglau yn dechrau cyn diwedd Rhagfyr ar gyfer Llygad Llŷn 2016. Y bwriad yw cynhyrchu oddeutu 4,000 unwaith eto eleni a'i gyhoeddi erbyn y Pasg.

3.2 Yn ogystal â'r eitemau arferol, mae'n fwriad yn y rhifyn nesaf i gynnwys eitem am giataiu traddodiadol yr ardal – hyn ar gais aelod o'r cyhoedd. Os oes yna eitem arall y dymunir i ni ystyried ei gynnwys, dylid cysylltu â'r Uned AHNE.

## **4.0 CYSTADLEUAETH FFOTOGRAFFIAETH**

4.1 Yn rhifyn Llygad Llŷn 2015, cynhaliwyd cystadleuaeth ffotograffiaeth o dan y thema "Treftadaeth Llŷn" – a'r dyddiad cau 25ain o Fedi. Cynhelir y gystadleuaeth bob dwy flynedd fel ymgais i dynnu sylw at nodweddion arbennig yr ardal.

- 4.2 Mae nifer o luniau wedi dod i law ac mae'n fwriad penderfynu ar restr fer ac enillydd yn fuan, gan gynnal digwyddiad gwobrwyo yn ystod Rhagfyr.

## **5.0 CALENDR DARGANFOD HARDDWCH CYMRU 2016**

- 5.1 Cyhoeddir calendr arbennig er sawl blwyddyn bellach ar y cyd rhwng Ardaloedd Harddwch Cymru a'r Parciau Cenedlaethol. Mae pob ardal yn cyfrannu at y gost, gydag ardal wahanol yn cydlynu bob blwyddyn. Llŷn sy'n gyfrifol amdano eleni.
- 5.2 Mae'r calendr ar gyfer codi ymwybyddiaeth am dirluniau gwarchoddedig Cymru ac yn cynnwys lluniau trawiadol o dirluniau'r 8 ardal yn ogystal â lluniau dan y thema cymuned, bioamrywiaeth, amgylchedd hanesyddol a gweithgareddau hamdden cynaliadwy.
- 5.3 Mae'r lluniau bellach wedi eu trosglwyddo i'r dylunwyr ac rydym yn aros i dderbyn copi drafft yn fuan.
- 5.4 Y nod yw bod y calendr terfynol ar gael ganol Rhagfyr a bydd aelodau'r Cydbwyllgor yn derbyn copi drwy'r post.

## **6.0 TANDDAEARU**

- 6.1 Dyma ddiweddariad ar y prosiect ar y cyd rhwng Scottish Power ac AHNE Llŷn, AHNE Ynys Môn ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i adnabod safleoedd a thanddaearu gwifrau trydan er mwyn gwella'r tirlun.
- 6.2 Mae cryn waith tanddaearu wedi bod yn mynd rhagddo yn Llŷn yn ystod y misoedd diwethaf ac yn benodol ar Fynydd Cilan.
- 6.3 Cynhaliwyd cyfarfod ar Hydref 7fed rhwng Scottish Power, Eryri Arboriculture and Consultancy a'r 3 AHNE er mwyn diweddarau ar y gwaith yn yr ardaloedd. Cafwyd cyfle hefyd i drafod safleoedd sydd ar y gweill. Yma yn Llŷn, y gobaith yw dechrau yn fuan ar safleoedd yn Nefyn (Cors Geirch) a chomins Mynytho.

## **7.0 DEHONGLI TRE'R CEIRI**

- 7.1 Dyma brosiect sy'n barhad o waith dehongli yn 2013 pan osodwyd paneli gwybodaeth ar safleoedd ger bryngaerau'r ardal megis Garn Boduan, Garn Fadryn a Thre'r Ceiri.
- 7.2 Mae trafodaethau wedi bod yn ddiweddar gyda CADW ac mae'n fwriad dechrau yn fuan ar waith dehongli pellach, yn benodol ar safle Tre'r Ceiri. Y nod yw codi ymwybyddiaeth am un o fryngaerau pwysicaf Gogledd Ewrop, gwella profiad ymwelwyr, ehangu'r gynulleidfa bosib a chodi ymwybyddiaeth am gaerau eraill yn Llŷn.

- 7.3 Bydd elfennau o'r prosiect yn cynnwys gwaredu tri panel gwybodaeth sydd wedi dirywio'n sylweddol ger y mynedfeydd ac ar y copa, a chynhyrchu taflen wybodaeth.
- 7.4 Mae'n brosiect pwysig i'r ardal ac yn plethu gyda Strategaeth Ddehongli CADW yn ogystal â Chynllun Rheoli AHNE Llŷn.

## **8.0 Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY**

- 8.1 Clustnodwyd £60,000 i bob un o Ardaloedd Harddwch Cymru AHNE i'w weinyddu ym mlwyddyn ariannol 2015/16.
- 8.2 Er gwybodaeth, mae bron i £64,000 wedi ei glustnodi eisoes i brosiectau teilwng iawn yn yr ardal ac o'r herwydd nid yw'r Uned AHNE yn derbyn rhagor o geisiadau ar hyn o bryd. Er bod gorwariant yma, rydym wedi derbyn cadarnhad gan Gyfoeth Naturiol Cymru fod arian ychwanegol ar gael.
- 8.3 Bydd cyfle yn y cyfarfod i weld crynodeb a chyflwyniad byr am brosiectau llwyddiannus diweddar.

## **9.0 ARGYMHELLIAD**

- 9.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth uchod.